# Adolygiad ar ôl gweithredu rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro yng Nghymru: Adroddiad ar y casgliadau sy'n dod i'r amlwg

Llywodraeth Cymru
Welsh Government
www.llyw.cymru

Crynodeb o'r ymchwil

Nifer: 48/2015

Drwy Reoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010, cyflwynwyd tâl sylfaenol o 5 ceiniog am bob bag siopa untro, yn y man gwerthu, sef mewn siopau ac wrth ddefnyddio dulliau gwerthu o bell, o fis Hydref 2011 ymlaen.

Mae'r bwletin hwn yn cyflwyno'r casgliadau sy'n dod i'r amlwg o'r adolygiad a gynhaliwyd ar ôl gweithredu rheoliadau codi tâl am fagiau siopa untro.

Er mwyn cyfrannu at ddatblygiadau'n ymwneud â'r tâl yng Nghymru yn y dyfodol, mae'r astudiaeth yn ystyried effaith y tâl ar ddefnyddwyr, busnesau a'r amgylchedd, ac effaith y cytundeb gwirfoddol â gwerthwyr i roi'r enillion net i achosion da.

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

## Y prif bwyntiau:

Rhwng mis Hydref 2011 a mis Hydref 2014, daeth y canlynol i'r amlwg:

- Mae'r adolygiad yn amcangyfrif y bu gostyngiad o 71% yn nifer y bagiau siopa untro a ddefnyddiwyd.
- Mae cynnydd yn nifer y 'bagiau am oes' a ddefnyddir a bagiau eraill y gellir eu hailddefnyddio yn golygu y bu gostyngiad cyffredinol o 57% yn nifer yr **holl fagiau** a ddefnyddiwyd.
- Cynyddodd cefnogaeth defnyddwyr i'r tâl; roedd llai na dau draean (61%) o'i blaid cyn cyflwyno'r tâl yn 2011, ond roedd ychydig o dan dri chwarter (74%) o'i blaid erbyn 2014.
- blith y gwerthwyr a oedd yn codi tâl am eu bagiau, dywedodd y mwyafrif (87%) fod y tâl am fagiau siopa untro naill ai wedi cael effaith ffafriol ar eu busnes neu nid oedd wedi effeithio dim arno. Dim ond 13% oedd yn credu bod y tâl wedi cael effaith niweidiol ar eu busnes.
- Buddion net y tâl am fagiau siopa untro oedd rhwng £28 miliwn a £32 miliwn.
- Drwy godi tâl o 5c am fagiau siopa untro, amcangyfrifir bod rhwng £17 miliwn a £22 miliwn ychwanegol wedi'i roi i achosion da.
- ganlyniad i'r arian a roddwyd i achosion da, amcangyfrifir bod buddion cymdeithasol o rhwng £27 miliwn a £35 miliwn wedi'u sicrhau a hynny ar ffurf buddion i'r amgylchedd, iechyd a chyflogaeth.

## Y cefndir

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno tâl am fagiau siopa untro a hynny er mwyn lleihau'r nifer a ddefnyddir a'r effeithiau cysylltiedig ar yr amgylchedd. Drwy Reoliadau Codi Tâl am Fagiau Untro (Cymru) 2010, cyflwynwyd tâl sylfaenol o 5 ceiniog am bob bag siopa untro, yn y man gwerthu, sef mewn siopau ac wrth ddefnyddio dulliau gwerthu o bell, o fis Hydref 2011 ymlaen.

## Nodau ac amcanion yr astudiaeth

Nod cyffredinol y prosiect hwn oedd cynnal adolygiad ar ôl gweithredu'r tâl am fagiau siopa untro. O fewn y nod cyffredinol hwn, amcanion y prosiect oedd asesu:

- Yr effaith y mae'r tâl wedi'i chael ar ddefnyddio bagiau siopa untro ac ymddygiad cysylltiedig defnyddwyr yng Nghymru;
- r effaith y mae'r tâl wedi'i chael ar fusnesau yng Nghymru;
- I ba raddau y mae'r cytundeb gwirfoddol â gwerthwyr wedi llwyddo i'w hannog i roi enillion net y tâl i achosion da;
- I ba raddau y mae'r tâl wedi lleihau nifer y bagiau untro sy'n cael eu taflu fel sbwriel;
- Buddion economaidd y tâl.

## Y dulliau

- Roedd yr astudiaeth yn cynnwys:
- adolygiad o lenyddiaeth;
- arolwg dros y ffôn gyda 1,011 o ddefnyddwyr;
- arolwg dros y ffôn gyda 504 o werthwyr;
- grŵp ffocws ynghyd â thrafodaethau lled strwythuredig unigol â gwerthwyr; a
- trafodaethau lled strwythuredig unigol â chynhyrchwyr a dosbarthwyr.
- Cynhaliwyd yr astudiaeth rhwng mis Gorffennaf 2014 a mis Ebrill 2015.

## Casgliadau manwl

### Gwerthwyr

O blith y gwerthwyr a oedd yn codi tâl am eu bagiau, dywedodd y mwyafrif (87%) fod y tâl am fagiau siopa untro naill ai wedi cael effaith ffafriol ar eu busnes neu nid oedd wedi effeithio dim arno. Dim ond 13% oedd yn credu bod y tâl wedi cael effaith niweidiol ar eu busnes. Roedd ychydig o dan dri chwarter o'r gwerthwyr sy'n codi tâl am fagiau (74%) am weld y tâl yn parhau, er i 14% arall ddweud '*yr hoffent weld rhai newidiadau*'. Prin 10% oedd am weld 'y tâl yn cael ei ddileu'.

Roedd y sylwadau a gafwyd gan grwpiau ffocws y gwerthwyr hefyd yn dangos eu bod, at ei gilydd, o blaid y tâl, a dywedodd nifer o werthwyr fod eu costau busnes wedi gostwng o ganlyniad i'r tâl gan fod llai o fagiau'n cael eu prynu.

Dywedodd y gwerthwyr hefyd mai cymharol ychydig o amser roeddent wedi'i dreulio'n gweinyddu'r tâl yn ystod y flwyddyn flaenorol. Dywedodd dros hanner y gwerthwyr (58%) nad oeddent wedi treulio dim amser ychwanegol yn gweinyddu'r tâl yn ystod y flwyddyn flaenorol, a dywedodd ychydig dros chwarter (27%) eu bod wedi treulio un diwrnod neu lai yn gwneud hynny; dywedodd 5% ohonynt eu bod wedi treulio dros un diwrnod yn gweinyddu'r tâl.

Gofynnwyd i'r rhai a ymatebodd i arolwg y gwerthwyr amcangyfrif cost y tâl i'w busnes. Awgryma'r casgliadau fod y gost, drwy Gymru, o weinyddu'r tâl am fagiau siopa untro, at ei gilydd, yn llai na £180,000 y flwyddyn.

.

### Defnyddwyr

Gofynnwyd i'r defnyddwyr a oeddent o blaid neu yn erbyn y tâl. Roedd y mwyafrif o'i blaid. Ymhlith defnyddwyr, mae cefnogaeth i'r tâl wedi cynyddu o lai na dau draean (61%) cyn cyflwyno'r tâl yn 2011, i ychydig llai na thri chwarter (74%) yn 2014.

Mae cefnogaeth defnyddwyr i'r tâl hefyd i'w weld yn y ffaith bod 42% yn dweud eu bod yn cymryd llai o fagiau siopa untro ers cyflwyno'r tâl a bod dros draean ohonynt (35%) yn dweud eu bod wedi rhoi'r gorau i gymryd bagiau siopa untro'n gyfan gwbl.

Dangosodd yr adolygiad fod y duedd i ddefnyddio bagiau siopa untro'n amrywio'n ôl natur y siopa. Wrth holi defnyddwyr am y tro diwethaf y buont yn siopa am wahanol eitemau, roedd y nifer fwyaf (78%) wedi defnyddio bagiau siopa untro pan oeddent yn prynu bwyd parod o'i gymharu â 36% a'u defnyddiodd pan oeddent yn prynu eitemau heblaw bwyd, 29% pan oeddent yn prynu bwyd 'ychwanegol' (29%) ac 17% pan oeddent yn siopa yn yr archfarchnad.

## Cynhyrchwyr a dosbarthwyr

Gofynnwyd i'r gwerthwyr pwy oedd yn cyflenwi eu bagiau siopa untro. Holwyd pump o'r deg prif gyflenwr a nodwyd ynghylch effaith y tâl arnyn nhw. Yn ôl sylwadau'r cynhyrchwyr, ymddengys bod y tâl wedi cael effaith niweidiol ar fusnesau'r cyflenwyr llai a nododd ostyngiad mewn gwerthiant yn gyffredinol.

## Achosion da

Nid oes unrhyw ddyletswydd statudol ar werthwyr i roi'r arian a gânt am y bagiau siopa untro i achosion da, ond mae hyn yn rhan o gytundeb gwirfoddol a ddatblygodd Llywodraeth Cymru ar gyfer gwerthwyr.

- Mae'r cytundeb gwirfoddol hwn yn seiliedig ar yr egwyddorion a ganlyn:
- Caiff yr enillion net eu rhoi i achosion da, ac os yw'n bosibl, bydd hynny o fudd i Gymru.
- Bydd yr enillion net yn gymorth ychwanegol i achosion da, a hynny'n ychwanegol at unrhyw drefniadau sydd ar waith eisoes.
- Os oes gan werthwyr dros 10 o weithwyr amser llawn, bydd copi o'u record neu ddolen ati'n cael ei rhoi i Lywodraeth Cymru pan gaiff ei chyhoeddi, a hynny at ddibenion monitro.
- Os oes gan werthwyr lai na 10 gweithiwr amser llawn, bydd datganiad yn cael ei baratoi a fydd yn cynnwys enw'r achos(ion) da y cyfrannwyd atynt.

O'r gwerthwyr a oedd yn codi tâl am fagiau untro, dywedodd 78% eu bod yn rhoi eu henillion net i gyd i achosion da; dywedodd 9% arall eu bod yn rhoi cyfran o'u henillion net i achosion da a dywedodd 6% na wyddent pa gyfran o'u henillion net roeddent yn ei rhoi i achosion da. Dywedodd llai nag 1 o bob 10 o werthwyr nad oeddent yn rhoi eu henillion net i achosion da a gwrthododd 1% ateb y cwestiwn.

Roedd yr arolwg o ddefnyddwyr yn awgrymu bod rhywfaint o ddryswch ynghylch y tâl a godwyd am fagiau siopa untro a sut y dylid defnyddio'r enillion cysylltiedig. Roedd hanner y defnyddwyr (50%) a holwyd yn credu bod gwerthwyr yn rhoi'r arian i achosion da, dywedodd traean (30%) nad oeddent yn gwybod beth oedd yn digwydd i'r tâl; roedd y gweddill yn credu bod Llywodraeth Cymru yn cael y tâl (7%), bod y gwerthwyr yn ei gadw (6%), bod y tâl yn cael ei roi i'r awdurdod lleol (2%) a chafwyd esboniadau amrywiol eraill hefyd (2%).

## Sbwriel

Yn yr astudiaeth hon, defnyddiwyd arolygon defnyddwyr a gwerthwyr i asesu effaith y tâl ar sbwriel. Dywedodd mwyafrif y gwerthwyr na fu unrhyw newid ym maint y sbwriel a oedd i'w weld o amgylch eu heiddo (78%). Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt i ba raddau roeddent yn cytuno â set o osodiadau, cytunodd dros hanner ohonynt (59%) fod y tâl wedi helpu i leihau sbwriel a chytunodd dau draean (66%) o ddefnyddwyr fod y tâl wedi helpu i leihau sbwriel yn ardal yr awdurdod lleol.

Mae'n bosibl bod y gwahaniaeth rhwng ymateb y gwerthwyr a'r defnyddwyr i'w briodoli i'r gwahaniaeth yn y modd y cafodd y cwestiynau eu geirio. Roedd y cwestiwn i'r gwerthwyr wedi'i gyfyngu i'w heiddo'u hunain ond gellid dehongli'r cwestiwn i'r defnyddwyr i olygu ardal ehangach.

## Defnyddio bagiau siopa untro

Mae'r adolygiad hwn yn amcangyfrif bod gostyngiad o 71% yn nifer y bagiau siopa untro a ddefnyddiwyd ers cyflwyno'r tâl (2011 - 2014).

Fodd bynnag, mae'r gwaith a wnaed gan Raglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau ar gyfer archfarchnadoedd Cymru yn dangos gostyngiad o 78% yn nifer y bagiau siopa untro a ddefnyddiwyd. Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau arolwg i'w briodoli i'r ffaith bod gwerthwyr nad ydynt yn archfarchnadoedd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad hwn.

Mae'r cynnydd yn nifer y 'bagiau am oes' a bagiau tebyg a brynwyd ac a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod dan sylw yn golygu y bu gostyngiad cyffredinol o 57% yn nifer yr **holl fagiau** a ddefnyddiwyd.

# Y camau nesaf / cyhoeddiadau yn y dyfodol

Mae'r bwletin hwn yn cyflwyno'r casgliadau sy'n dod i'r amlwg o'r adolygiad. Rhagwelir y caiff yr adroddiad gwerthuso llawn ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn ystod Hydref 2015. .

**Sylwadau'r ymchwilwyr, ac nid sylwadau Llywodraeth Cymru, o reidrwydd, a gyflwynir yn yr adroddiad hwn**

**Cyswllt:**

Rebecca Sarasin
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Caerdydd
CF10 3NQ

Ebost: rebecca.sarasin@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Cymdeithasol Llywodraeth Cymru
4 Medi 2015

ISBN: 978-1-4734-4628-1

© Hawlfraint y Goron 2015

OGL

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, oni nodir yn wahanol.

http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/